OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 562 (Cy.65)

AER GLÅN, CYMRU

Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*11 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*12 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*3 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 3 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau

2. Yn yr Atodlen (Tanwyddau Awdurdodedig) i Reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008(**3**)—

(a) ar ôl paragraff 11, mewnosoder—

"**11A.** Brics glo Coalite Ovals, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

(a) sydd wedi'u cyfansoddi o 10 i 15 y cant glo meddal, 10 i 15 y cant golosg petrolewm, 70 i 80 y cant llwch glo caled a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);

(**1**) 1993 (p. 11).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2008/3100 (Cy. 274), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/3225 (Cy. 279), O.S. 2011/2909 (Cy. 313).

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 260ºC;

(c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd â'u hyd yn rhyw 84.2 o filimetrau ac yn 61.5 o filimetrau x 37.8 o filimetrau;

(ch) sy'n pwyso 118 gram y fricsen ar gyfartaledd; a

(d) nad yw'r sylffwr sydd ynddynt yn fwy na 1.9 y cant o sylffwr ar sail sych."

(b) ar ôl paragraff 17, mewnosoder—

"**17A.** Brics glo Ecoal 50, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) sydd wedi'u cyfansoddi o ronynnau glo caled (sef rhyw 30 i 55 y cant o'r cyfanswm pwysau), biomas (sef rhyw 25 i 35 y cant o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef rhyw 10 i 40 y cant o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef rhyw 0 i 5 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig naturiol (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu yna triniaeth wres ar dymheredd oddeutu 300ºC mewn amgylchedd wedi ei reoli, â llai o ocsigen;

(c) sy'n frics glo ar siâp hecsagon gyda streipen ar un ochr ar draws y rhannau gwastad;

(ch) sy'n pwyso 135 gram y fricsen ar gyfartaledd; a

(d) nad yw'r sylffwr sydd ynddynt yn fwy na 2 y cant o'r cyfanswm pwysau."

(c) ar ôl paragraff 18A, mewnosoder—

"**18B.** Brics glo Excel+, a weithgynhyrchir gan Oxbow Coal B.V. yn Newfield Works, Bishop Auckland, County Durham—

(a) sydd wedi'u cyfansoddi o olosg petrolewm (sef 65 i 70 y cant o'r cyfanswm pwysau) a glo caled (sef 25 y cant o'r cyfanswm pwysau) ynghyd â rhwymwr resin sy'n caledu pan fo'n oer, caledwr a sefydlogydd tymheredd isel fel gweddill y pwysau;

(b) a gynhyrchir ar dymheredd amgylchynol drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a chaledu oer;

(c) sy'n frics glo sgwâr, heb eu marcio ar siâp gobennydd;

(ch) sy'n pwyso 100 gram y fricsen ar gyfartaledd; a

(d) nad yw'r sylffwr sydd ynddynt yn fwy na 1.9 y cant o'r cyfanswm pwysau."

(d) ar ôl paragraff 23, mewnosoder—

"**23A.** Hot Drops, a weithgynhyrchir gan EU Zeme Limited yn Riga, Eksporta Street 15, LV-1045, Latfia—

(a) sydd wedi'u cyfansoddi o lo caled wedi ei falu (sef rhyw 73 y cant o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef rhyw 18 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr triagl ac asid orthoffosfforig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu, yna triniaeth wres ar dymheredd oddeutu 250 i 280ºC;

(c) sy'n frics glo, bron yn grwn ar siâp gobennydd, sydd 40 o filimetrau eu diamedr ac sy'n rhyw 21 o filimetrau o drwch yng nghanol y fricsen;

(ch) sy'n pwyso 23 gram y fricsen ar gyfartaledd; a